- The regional consortia were not well placed to determine how to use the PDG/LAC. They lacked expertise in this area, failed to consult widely enough with expert practitioners to gain a broader insight into the challenges, and did not use all available data to inform their plans. In addition, the timescale they were given to produce meaningful spending plans was too short.
- Regional consortia do not have a good enough understanding of where there is good or effective practice either within their own local authorities or further afield. As a result, they exclude practices that are effective and are unsure whether the approaches included in their plans will be successful.
- As a result, many schools are unaware of the region's strategy and what this means for them. This has created a degree of uncertainty and many schools are unsure whether they will be able to maintain the enhanced level of curriculum and support that they provide for children who are looked after.

Estyn has limited evidence of the impact of the use of PDG funding on outcomes for looked after learners since the publication of this report, for the academic year 2016-17. It is important to note that Estyn does not report on standards or progress of particularly small groups of learners (normally 5 or less) to avoid the identification of individual learners.

**3. The Chief Inspector referred to data from Year 6 pupils looking at value added, during the discussion of tracking and more able learners – anything you can provide on this would be useful.**

Overall, too few schools use the PDG to support more able learners to achieve their full potential. It is much more common for schools to target pupils to reach the expected outcomes and levels, for example through intervention strategies for literacy and numeracy. In the thematic report '***Supporting more able and talented pupils. How best to challenge and nurture more able and talented pupils: Key stages 2 to 4'*** here, (Estyn, March 2018), inspectors identified that:

In key stage 2:

Pupils who are eligible for free school meals achieve consistently less well than their peers in key stage 2 and key stage 3. Since 2012, the gap has increased slightly in all of the core subjects at key stage 2 and is wider for all subjects at key stage 3 than at key stage 2 (Welsh Government, 2017f & 2017g).

The increases in pupils' outcomes at the higher than expected levels at key stages 2 and 3 over time continue to raise questions about the reliability and validity of teacher assessments, particularly whether there is too much emphasis on teacher assessments for accountability purposes rather than accurate assessment to improve learning.

In key stage 4

More able pupils eligible for free school meals do not perform as well as other pupils who are more able. The gap in performance in the percentage of pupils gaining five A* to A grades has been around 15% for the past three years (Welsh Government, 2017c). Pupils in Welsh-medium schools achieve better than pupils in English-medium schools. This is due in part to Welsh medium schools having lower levels of pupils eligible for free school meals (Welsh Government, 2017c).

National Tests

National test data indicates that pupils eligible for free school meals are much less likely to attain a standardised score of >115 in any of the national tests. A link to the Welsh Government statistics website is http://gov.wales/statistics-and-research/national-reading-numeracy-tests-entitlement-free-school-meals/?lang=en

**Questions not covered in either session**

1. **Which aspects of Schools Challenge Cymru could/should be applied more generally to school improvement now that the programme has ended? Does Estyn have any role in the Welsh Government's stated intention to learn lessons from Schools Challenge Cymru and apply them to school improvement across the board?**

**The need to co-ordinate support for schools**

A majority of SCC schools benefited from the co-ordinated support facilitated by the Accelerated Improvement Boards.  A range of partners where represented on the board and provided support to the school and regularly reviewed progress.

**The recognition that a minority of schools require bespoke intervention**

The programme recognised that a minority of schools needed more extensive and bespoke assistance and resources to support improvement and that the secondary sector faced different and sometimes more complex challenges to improve leadership, provision and standards

**The importance of evaluation**

Extensive professional support and training helped to ensure that there was greater consistency in the quality of evaluations and analyses**.**

Estyn recognises the need to co-ordinate support for schools and local authorities, therefore in the latter part of the 2010-2016 inspection cycle, as part of our link inspector work with local authorities, we developed an “improvement conference” approach to help local authorities to improve aspects of their work that were weak and causing concern.

The aim of the improvement conferences is for inspectors to seek assurance from senior officers and members that the authority and its consortium understands and takes shared responsibility for the issues that are resulting in poor performance.

During the conference, we check that the authority has coherent plans to improve, has sufficient resources to implement its plans and has rigorous processes in place to monitor and evaluate their impact. The implementation of the plans is then monitored by the local authority link inspectors during their visits to the local authorities.

During 2016 and 2017 we held pilot improvement conferences in three local authorities, Pembrokeshire, Powys and Wrexham. We invited the key senior officers, elected members and partners to meet to explore the specific areas of their work that were causing concern. In all three pilot conferences, secondary performance was an issue identified as needing to be improved.

At the end of each conference, we were assured that the local authorities understood the reasons behind the weak performance of their secondary schools and that they were taking appropriate action to rectify the situation. For example, the senior leaders in Pembrokeshire authority changed the challenge adviser for nearly all of its eight secondary schools to provide more effective support and challenge. The council also agreed a proposal to reorganise secondary education in Haverfordwest, where the two secondary schools were in special measures.

During 2018, Estyn will revisit each of these local authorities to review the progress that they have made since the original improvement conference. Each authority will be expected to evidence what actions it has taken to address it is issues and, more importantly, what impact these actions have had to date on learners. Estyn will write to the chief executive of each authority following the 2018 improvement conference to set out our views on their progress.

Estyn's cycle of local government education service inspections begins in September 2018, and the local authorities involved in improvement conferences will be inspected in full. A full inspection will take place approximately one year after the publication of the letter to the chief executive following the 2018 improvement conference.

Later this term, we plan to pilot improvement conferences for schools causing concern.

**2. How effectively are the four regional consortia and 22 local authorities contributing to the 'closing the attainment gap' agenda and the successful use of the PDG?**

We can be confident that in almost all schools, the PDG is spent on activities aimed at improving outcomes for targeted (eligible) learners. All the consortia promote the use of PDG in line with evidence of what works. All the consortia have appropriate processes to check that schools' spend plans are compliant.

It is much harder to be confident about the actual impact of the PDG, primarily because it is difficult to determine cause and effect when there are so many other variables that contribute to learners' outcomes. It would be too crude to evaluate the impact of PDG from an analysis of annual outcomes for eFSM learners across consortia.

There has been a tendency in schools to focus PDG on short-time interventions to boost test or examination results at the end of key stage 2 or key stage 4 rather than investing the funding in ways that support sustainable improvements in the quality of teaching and the quality of support for learners.

The Education Endowment Foundation's latest report on the attainment gap notes:

*There does not appear to be a direct relationship between increased school funding and increased pupil attainment – what matters most is how schools can effectively and efficiently use the resources they have (both financial and human) for maximum impact. (p2, executive summary)*

In Wales there is a strong correlation between schools where learners from deprived backgrounds perform well and schools that perform well overall as a result of good teaching and good leadership.

It is also important that providers don't chase accountability measures where this is not in the best interests of the learner.  It is better that a learner misses a particular indicator but has a successful transition into further education, employment and training than being trained to jump through an accountability measure hoop but has no appropriate pathway at 16.

**3. In the past, Estyn has been quite critical of the extent to which the consortia focus on particular groups of pupils and track outcomes, for example vulnerable learners and more able learners. What is Estyn's updated assessment of how well consortia are doing this now? (From Estyn's inspections of each consortia in 2015/16.)**

Although monitoring and tracking the progress and achievements of vulnerable learners is an established part of the work of schools and colleges, the overall statutory responsibility for these learners rests with the local authority.  Local authorities commission regional consortia to support this aspect of their work.

The consortia all have suitable systems in place to enable them to track the performance of particular groups, and these systems have all improved since Estyn first visited the consortia.  It would be very easy for the consortia to answer a question about the performance of a particular group of pupils, assuming that performance referred to a national performance indicator.  Tracking and the evaluation of outcomes tends to be based mainly or wholly on national performance indicators.  However, these measures are not always the most helpful measures for evaluating the progress of particular groups, especially where it is important to take full account of their outcomes in previous key stages, their particular needs and circumstances and of their next steps or destinations.  Consortia and local authorities together need to make better use of other information when evaluating the outcomes of some groups of pupils where it is too crude to make assumptions from national performance indicators.

Most local authorities commission the consortia to provide support and challenge to schools through the work of the challenge advisors.  Part of this role is to question the provision for vulnerable learners alongside that of their peers.  Since the initial introduction of the PDG, the regional consortia have developed a better understanding of the performance of pupils eligible for free school meals than was previously the case.  They have a suitable understanding of who their disadvantaged learners are and challenge schools about the outcomes of this group, for instance during challenge advisor visits.  Generally, they also have appropriate arrangements to ensure that school's use PDG funding appropriately for its intended recipients but do not consistently evaluate impact of the expenditure on improving pupils' outcomes and wellbeing. The regional consortia now have officers with responsibility for improving outcomes for eFSM but it is too early to evaluate their impact

Most local authorities track the progress of LAC learners centrally and have secure processes to monitor their progress through LAC co-ordinators or achievement leaders.  The tracking of a few learners who are placed out of county is less secure.

Overall, regions, local authorities and schools do not place a high enough priority on supporting more able disadvantaged learners to reach their potential.

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/KW/1398/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Ebrill 2018

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mawrth yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o'r diweddariad ym mis Chwefror ynglŷn â chefnogi dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Rydych yn codi nifer o bwyntiau penodol a gaiff eu hateb isod.

- **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu monitro a gwerthuso canlyniadau cyllid y Grant Cynnal Refeniw i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig?**

Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl* yn nodi sut y byddwn yn codi safonau, yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ac yn cyflwyno system addysg sy'n destun hyder a balchder cenedlaethol. Dyma ein cynllun gweithredu ar gyfer addysg mewn ysgolion ar gyfer y cyfnod 2017-21.

Mae cenhadaeth ein cenedl, fel y'i cefnogir gan gynlluniau busnes y consortia rhanbarthol, yn nodi'r angen i rannu cyfrifoldeb ac yn egluro'r rolau o ran cyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol ar draws y system addysg tair haen yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Awdurdodau Lleol, Estyn ac ysgolion.

Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am gyllid ar gyfer ysgolion yn unol â'r gyfraith ac mae'n ddyletswydd arnynt i sicrhau bod darpariaeth addysg briodol ar gael i bob dysgwr. Dyna pam, ar ôl 10 mlynedd o ddarparu arian grant ychwanegol i roi systemau a dulliau ar brawf, bod cefnogaeth i ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr bellach yn ddarpariaeth graidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau anodd, gan gynnwys lleihau'r gyllideb addysg er mwyn cynyddu i'r eithaf yr arian a roddir i Lywodraeth Leol i gefnogi darpariaeth rheng flaen mewn ysgolion. Mae blaenoriaethu arian i Lywodraeth Leol wedi gwella sefyllfa'r Setliad yn sylweddol o'r rhagdybiaethau cynllunio gwreiddiol yr oedd awdurdodau yn eu disgwyl, sy'n cyfateb i gynnydd cyffredinol o 0.2% yn 2018-19. Amlinellir hyn yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ym mis Tachwedd. Mae Llywodraeth Leol yn deall y newid yn y sefyllfa o'r rhagdybiaethau cynllunio i'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol a'r Setliad ac rwy'n croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Leol y bydd Awdurdodau yn parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr.

Mae pob Awdurdod Lleol yn destun proses graffu ac archwilio ac mae'n atebol i'w hetholaeth, Estyn, a Swyddfa Archwilio Cymru. Rwy'n cwrdd yn rheolaidd ag Arweinydd CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer addysg.

Bob blwyddyn rydym yn casglu ac yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad addysgol y grwpiau hyn o ddysgwyr, ac mae llawer ohonynt yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru; byddwn yn parhau i wneud hyn ac rwy'n hyderus bod trefn wirio a chydbwyso yn y system ac y gallwn barhau i fonitro cynnydd wrth symud ymlaen.

- **Pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn sgil argymhellion y Pwyllgor, yr ydych wedi'u derbyn, o ran effaith a chanlyniadau'r Grant Gwella Addysg ar y grwpiau hyn o ddysgwyr, gan fod y cyllid bellach y tu allan i'r Grant Gwella Addysg?**

Yn fy niweddariad blaenorol i'r Pwyllgor cydnabuwyd bod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn eang, yn amrywiol ac yn anghyson mewn mannau. Yn y cyd-destun hwn, roedd tystiolaeth Estyn yn awgrymu mai prin oedd y newid o ran cyflawni'r gwasanaethau hyn gan Awdurdodau Lleol pan newidiodd y trefniadau cyllido o'r grantiau wedi'u targedu i'r Grant Gwella Addysg.

Yn sgil cyhoeddi *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*, ac fel yr amlinellir uchod, rwy'n hyderus y gallwn barhau i fonitro cynnydd y grwpiau hyn o ddysgwyr drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, consortia rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol.

- **A allwch chi ddarparu copi i'r Pwyllgor o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y cynhaliodd Llywodraeth Cymru cyn gwneud y penderfyniad i newid y ffordd y darperir cyllid ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr?**

Cadarnhawyd yn y diweddariad ym mis Chwefror bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried y gofynion ar Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ystod proses y gyllideb, ac wedi rhoi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Cynhaliwyd a chyhoeddwyd asesiad effaith integredig strategol ynghyd â'r Gyllideb Ddrafft. http://gov.wales/funding/budget/draft-budget-2018-19/?skip=1&lang=cy

Awgrymwyd hefyd y byddai Awdurdodau yn dymuno cynnal asesiadau yng nghyd-destun eu prosesau eu hunain i bennu cyllidebau. Yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru amlinellir yn glir bod:

> "pob Awdurdod Lleol yn gorff hunanlywodraethol a etholwyd yn ddemocrataidd, a hwnnw'n atebol i'w etholaeth am y penderfyniadau y bydd yn eu gwneud. Mae gan

Awdurdodau gyfres o ddyletswyddau a swyddogaethau statudol a phwerau i ddarparu ystod o swyddogaethau a gwasanaethau eraill. Rhaid i bob Awdurdod sicrhau ei fod yn cymryd camau priodol i asesu effaith unrhyw bolisi y mae'n ei weithredu gyda'r arian a ddaw drwy'r setliad llywodraeth leol".

Mae hyn yn bwysig gan mai, ynghyd â'r cyfrifoldebau yn ôl y gyfraith i ariannu ysgolion, penderfyniadau ar lefel Awdurdod Lleol sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar y modd y mae Awdurdodau yn cefnogi ysgolion a dysgwyr, gan gydnabod mai gwasanaethau cymorth Awdurdodau Lleol yw'r rhain. Felly, mae'n rhaid i'r asesiad a gynhaliwyd gan fy swyddogion gydnabod er bod penderfyniadau cyffredinol ar y gyllideb yn cael effaith ar ein darparwyr gwasanaethau a'r modd y darperir gwasanaethau, ein partneriaid cyflawni, sef ein Hawdurdodau Lleol yng Nghymru yn yr achos hwn, sydd â'r cyfrifoldeb statudol a'r penderfyniad terfynol.

- **Sut y gwnaeth yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru wrth iddi wneud y penderfyniad hwn?**

Roedd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a gynhaliwyd fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft yn ystyried sefyllfa'r gyllideb gyffredinol a'r cyfyngiadau sy'n dylanwadu ar gyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU i gyni. Fel rhan o broses y gyllideb aethpwyd ati ar lefel Llywodraeth gyfan i flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol ar gyfer darpariaeth rheng flaen mewn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Fel rhan o broses y Gyllideb Ddrafft, amlinellwyd fy mlaenoriaethau ar gyfer ysgolion i geisio sicrhau bod ein blaenoriaethau cenedlaethol yn rhan annatod o waith cynllunio Llywodraeth Leol. Rwyf wedi croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan Lywodraeth Leol y byddant yn parhau i roi blaenoriaeth i gefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr, ac i ddarpariaeth rheng flaen mewn ysgolion, a pharhau i gefnogi trefniadau gwella ysgolion rhanbarthol.

Wrth benderfynu lleihau cyllideb y Grant Gwella Addysg roeddwn yn dra ymwybodol o'r angen i ddiogelu ein buddsoddiad yn y Cyfnod Sylfaen, sef elfen fwyafrifol y Grant Gwella Addysg, ac i reoli'r newidiadau ar draws y meysydd eraill a gefnogir drwy'r Grant Gwella Addysg.

Drwy gytuno i neilltuo £22.2 miliwn o'r Grant Gwella Addysg i gefnogi blaenoriaethu Llywodraeth Leol dros y ddwy flynedd nesaf, bydd heriau ar draws y ddwy flynedd i bob maes y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, rwy'n lliniaru'r effaith ar y cymorth ar gyfer cyflawniad grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac addysg dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2018-19 drwy fuddsoddiad ychwanegol o £7.5 miliwn.

**<u>Symud cyllid</u>**

- **A allwch chi roi eglurder pellach ynghylch a yw'r £13.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw a beth fydd y drefn ar gyfer gwneud hyn? (*Rydych yn dweud yn eich ymateb nad trosglwyddiad grant yw 'hwn' ond a allwch chi gadarnhau beth yw ystyr 'hwn' yn y cyd-destun hwn?)***

Rwyf wedi bod yn glir nad trosglwyddiad grant yw'r newid mewn trefniadau cyllido ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r wybodaeth am y gyllideb yn dangos nad oes trosglwyddiad grant ffurfiol. Daeth y Grant Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Grant Penodol ar gyfer addysgu dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ben ym mis Mawrth 2015. Lleihawyd cyllideb y Grant Gwella Addysg i ryddhau adnoddau er mwyn cefnogi blaenoriaethu cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol. Mae cyllideb y Grant Gwella Addysg wedi gostwng £13.1 miliwn yn 2018-19 fel rhan o'r blaenoriaethu i

Lywodraeth Leol fel y cadarnhawyd wrth y Pwyllgor yn ystod ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft. Mae Prif Grŵp Gwariant Addysg wedi cyfrannu cyfanswm o £33 miliwn ar gyfer 2018-19 a 2019-20 tuag at flaenoriaethu arian i Lywodraeth Leol ar gyfer darpariaeth rheng flaen mewn ysgolion a gofal cymdeithasol.

- **A allwch chi gadarnhau a yw'r £5 miliwn rydych wedi'i ddyrannu yn 2018-19 ar gyfer awdurdodau trefol ar gael i Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn unig, a sut y mae'n cael ei ddyrannu?**

Wrth ymateb i alwadau gan Awdurdodau Lleol a CLILC, gofynnais i'm swyddogion archwilio sut yr effeithiwyd ar Awdurdodau Lleol yn sgil y newidiadau mewn cyllid a'r ffyrdd gwahanol o ddosbarthu'r Grant Gwella Addysg a'r Grant Cynnal Refeniw, gan gydnabod nad oes trosglwyddiad grant ffurfiol. Ni chafwyd dadansoddiad gan CLILC o sut roedd awdurdodau'n credu eu bod wedi cael eu heffeithio. Roedd ffigurau amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru yn dangos bod heriau penodol i Gaerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

Gallaf felly gadarnhau y bydd y £5 miliwn yn cael ei ddyrannu rhwng Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd.

- **Pa drefniadau sydd ar waith i ariannu darpariaeth awdurdodau lleol eraill sydd â dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, neu ddysgwyr o leiafrifoedd ethnig? (*Er mai Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe sydd â'r crynodiadau mwyaf o'r grwpiau hyn o ddysgwyr, mae awdurdodau lleol eraill hefyd yn darparu gwasanaethau i'r dysgwyr hyn. Gellir dadlau ei bod yn fwy heriol a chostus yn gyfrannol i sicrhau gwasanaethau o safon mewn ardaloedd heb 'fàs critigol' o ddysgwyr*.)**

Drwy flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol ar gyfer darpariaeth rheng flaen mewn ysgolion a gofal cymdeithasol, mae'n rhaid inni gydnabod y gwelliant sylweddol rhwng y rhagdybiaethau cynllunio gwreiddiol ar gyfer Setliad Llywodraeth Leol a'r cynnydd cyffredinol terfynol mewn arian parod o 0.2% i'r Setliad.

O ran màs critigol, yn 2014 roedd Llywodraeth Cymru yn glir nad oedd y trefniadau bryd hynny yn gynaliadwy a bod angen i Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd i allu rheoli'r pwysau, yn ariannol ac o ran unrhyw gynnydd yn y boblogaeth, yn y dyfodol. Bu hyn yn araf yn datblygu, er gwaethaf y ffaith bod cyllid wedi'i ddarparu drwy drefniadau rhanbarthol y Grant Gwella Addysg. Felly, rwyf wedi sicrhau £2.5 miliwn ychwanegol yn 2018-19 i gefnogi trosglwyddo i ddull cyflawni rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau cymorth. Byddwn yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fonitro'r canlyniadau sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn.

- **A allwch chi roi manylion ynghylch sut y caiff y £2.5 miliwn sy'n cael ei ddyrannu yn 2018-19 i hwyluso dulliau gweithredu rhanbarthol ei ddyrannu rhwng y pedwar rhanbarth?**

Byddwn yn cyfeirio'r cyllid i Gaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam fel awdurdodau'r prif ganolfannau demograffig ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr ym mhob rhanbarth. Rwy'n disgwyl i'r pedwar awdurdod hyn weithio'n agos â phob awdurdod lleol yn eu rhanbarth mewn perthynas â threfniadau yn y dyfodol i gefnogi'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Phrif Weithredwyr y pedwar Awdurdod Lleol ynghylch y fformiwla arfaethedig ar gyfer dosbarthu'r cyllid hwn ac mae'n fwriad gennyf gyfarfod â Chadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru yn fuan i drafod hyn ymhellach.

- **A allwch gadarnhau mai Wrecsam fydd yr awdurdod arweiniol yn rhanbarth y Gogledd (*ac os nad yw'n derbyn rhan o'r £5 miliwn, beth yw'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw*)?**

Rwy'n bwriadu dyrannu'r cyllid drwy'r pedwar awdurdod trefol mwyaf fel y prif ganolfannau demograffig ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr ym mhob rhanbarth, sydd, fel y nodir uchod, yn cynnwys Wrecsam.

- **A yw'r dyraniadau o £5 miliwn a £2.5 miliwn ar ben yr £13.1 miliwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddweud sydd ar gael yn y Grant Cynnal Refeniw neu a yw mewn gwirionedd yn ostyngiad o £5.6 miliwn o'r lefel bresennol o gyllid? (*Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig egluro hyn gan eich bod wedi gwahaniaethu yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft rhwng y 'gostyngiad' o £2 filiwn yn y Grant Gwella Addysg yn 2018-19 a 'thynnu' yr £13.1 miliwn i'w ddarparu yn y Grant Cynnal Refeniw*.)**


Mae'r £7.5 miliwn yn 2018-19 yn arian ychwanegol. Nid yw'r Setliad wedi ei neilltuo ac nid oes trosglwyddiad grant ffurfiol mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant mawr wrth gymharu'r rhagdybiaethau cynllunio i'r Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol a'r Setliad. Mae cyllideb y Grant Gwella Addysg wedi cyfrannu at y sefyllfa well hon, ac mae ein buddsoddiad o £7.5 miliwn yn ychwanegol at gyllideb y Grant Gwella Addysg a'r Setliad y cytunwyd arno ar gyfer 2018-19.

- **Ai dyraniadau untro yw'r £5 miliwn a'r £2.5 miliwn yn 2018-19? Pa gefnogaeth a fydd yn cael ei darparu'n rheolaidd i ariannu'r maes darpariaeth hwn?**

Mae'r buddsoddiad hwn yn fuddsoddiad ar gyfer 2018-19 yn unig. Rwyf wedi ysgrifennu at Arweinydd CLlLC yn cadarnhau fy mod yn bwriadu ystyried hyn fel rhan o broses y gyllideb ar gyfer 2019-20.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sicrwydd ichi bod mesurau ar waith i sicrhau y bydd ein dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr o leiafrifoedd ethnig yn parhau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P)-KW/0660/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddPPIA@cynulliad.cymru

18 Ebrill 2018

Annwyl Lynne

Dyma'r trydydd diweddariad chwarterol am raglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

**1. Canllawiau deddfwriaethol a statudol**

Yn fy niweddariad chwarterol blaenorol, dywedais fod y Cynulliad wedi pasio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Erbyn hyn, rwy'n falch o gyhoeddi i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018 a'i fod bellach yn cael ei adnabod fel Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf'.)

Mae hon yn garreg filltir bwysig ar y daith o drawsnewid, gan greu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i wella'r broses o gynllunio a sicrhau darpariaeth dysgu ychwanegol. Nawr, mae'r her wirioneddol o weithredu yn cychwyn.

Nawr, bydd angen i'm swyddogion wneud llawer iawn o waith yn datblygu'r is-ddeddfwriaeth ddrafft er mwyn rhoi dros 30 o bwerau creu rheoliadau'r Ddeddf ar waith, yn ogystal â gwaith sylweddol yn adolygu, diwygio ac mewn rhai achosion drafftio adrannau hollol newydd o'r Cod ADY. Fel y gwyddoch, wrth graffu ar y Bil, cafwyd sawl ymrwymiad i ddefnyddio'r Cod er mwyn darparu canllawiau manylach ar agweddau amrywiol ar y system newydd. Dyma fydd y llawlyfr i ymarferwyr a gwasanaethau sy'n gyfrifol am gyflwyno'r fframwaith deddfwriaethol newydd, felly mae'n hollbwysig ein bod ni'n cael popeth yn iawn.

O'r herwydd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y sectorau fel bod eu safbwyntiau, eu harbenigedd a'u profiadau yn helpu i siapio'r

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

system newydd. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn o'r Cod maes o law, ond bydd fy swyddogion yn cynnal sesiynau ymgysylltu penodol hefyd, gan gynnwys trwy gyfrwng grwpiau arbenigwyr perthnasol, er mwyn llywio datblygiad y Cod drafft dros y misoedd nesaf.

Mae'r broses ymgysylltu hon wedi cychwyn yn barod o safbwynt mireinio ein canllawiau gweithredu manwl rydym yn bwriadu eu cyhoeddi er mwyn helpu gwasanaethau i gynllunio a rheoli'r dasg o drawsnewid i'r system newydd. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Strategol ar Ddiwygio Addysg yn ogystal â grwpiau sector-benodol fel cymdeithas y penaethiaid ysgol arbennig a Cwlwm, corff ymbarél ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar nas cynhelir, er mwyn profi ein cynlluniau yn y camau cynnar hyn.

## 2. Cymorth i weithredu/pontio

### 2.1. Arweinwyr trawsnewid ADY

Heddiw, cyflwynais ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi manylion y pum arweinydd trawsnewid ADY yn dilyn proses agored a chystadleuol. Bydd pedwar o'r arweinwyr trawsnewid yn gweithio'n rhanbarthol, ar sail consortia addysg, ac un yn gweithio fel arweinydd addysg bellach ar lefel genedlaethol. Dyma'r pump:

- Margaret Davies, cyn-arolygydd Estyn a fydd yn gweithio yn rhanbarth y Gogledd;
- Huw Davies, cyn-arolygydd Estyn a fydd yn gweithio yn rhanbarth y Gorllewin;
- Liz Jones, cyn Brif Seicolegydd Addysg o Flaenau Gwent, a fydd yn parhau i weithio yn rhanbarth Canolbarth y De;
- Tracey Pead a fydd yn aros yn y De-ddwyrain ar ôl bod yn arwain y maes Cymorth Disgyblion ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- Chris Denham a fydd yn ymgymryd â rôl arweinydd trawsnewid addysg bellach ar ôl arwain ADY gyda Choleg Gwent.

Cefais y pleser o gwrdd â'n harweinwyr trawsnewid yn ddiweddar ac rwy'n hyderus y bydd eu profiad ac arbenigedd cyfoethog yn gaffaeliad gwerthfawr er mwyn llywio'r agenda pwysig hon ymlaen.

Mae pob arweinydd trawsnewid rhanbarthol wedi cael y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eu rhanbarth, a bydd yr arweinydd trawsnewid addysg bellach yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y sector addysg bellach. Bydd y cynlluniau hyn yn cyflwyno'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod yr arferion a'r prosesau angenrheidiol mewn lle cyn cyflwyno'r Ddeddf.

Byddant yn cael eu datblygu mewn cydweithrediad â'r cyrff statudol allweddol yn y rhanbarth sydd â dyletswyddau dan y Ddeddf. Bydd yn seiliedig ar ddadansoddi'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor barod ydyn nhw i weithredu agweddau allweddol y system newydd, i'w datblygu trwy hunanasesiadau o barodrwydd a thrafodaethau wedi'u hwyluso gan yr arweinwyr trawsnewid.

Bydd Grantiau Trawsnewid ADY yn ategu gwaith yr arweinwyr trawsnewid, grantiau a gaiff eu dyrannu i bob arweinydd trawsnewid rhanbarthol ar sail fformiwla; bydd hwn yn galluogi pob rhanbarth i dargedu arian fel y nodwyd yn eu cynllun gweithredu rhanbarthol. Mae hyn yn unol â phedwerydd argymhelliad y Pwyllgor yn ei adroddiad Cam 1 ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru):

*Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth dda i'r broses ar gyfer dosbarthu grantiau er mwyn lleihau biwrocratiaeth, gan sicrhau gwerth am arian hefyd.*

### 2.2. Grantiau Arloesi ADY a Grwpiau Arbenigwyr

Daeth y prosiectau amlasiantaeth rhanbarthol wedi'u hariannu trwy'r Grant Arloesi ADY dwy flynedd cyn-deddfwriaethol, i ben ddiwedd mis Mawrth. Bydd y grwpiau arbenigol perthnasol yn adolygu'r prosiectau arloesi hyn yn fuan, er mwyn gwerthuso ymarfer da ac unrhyw wersi a ddysgwyd ledled Cymru.

Mae'r Grŵp Arbenigwyr Iechyd ADY yn dal i gefnogi'r gwaith o ddatblygu canllawiau ar ofynion statudol i fyrddau iechyd dan y Ddeddf. Mae'r grŵp wrthi'n ailddrafftio'r disgrifiad swydd ar gyfer rôl Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) a gaiff ei lywio gan aelodau'r grŵp a'r prosiect a sefydlwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn archwilio sut y gallai'r rôl weithio'n ymarferol.

### 2.3. Asesiad sylfaenol ADY

Fel rhan o'r dasg o werthuso effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysgol 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil er mwyn pennu asesiad sylfaenol o effaith y system AAA gyfredol. Mae'r ymchwil yn cynnwys arolwg o'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r system AAA. Hefyd, mae pedair astudiaeth achos yn cael eu cynnal er mwyn darparu data manwl. Mae'r arolwg wedi'i gwblhau a phapur ar y casgliadau cychwynnol wrthi'n cael ei baratoi, cyn drafftio'r adroddiad llawn. Mae'r astudiaethau achos yn mynd rhagddynt yn dda gyda thua traean o'r cyfweliadau wedi'u cynnal.

## 3. Datblygu'r gweithlu

Ym mis Rhagfyr, fe ddyrannais £352,000 dros y ddwy flwyddyn ariannol nesaf er mwyn cefnogi hyfforddiant ôl-radd athrawon arbenigol a chynghorol awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda dysgwyr â nam ar y golwg, nam ar y clyw, a nam amlsynnwyr. Gellir defnyddio'r arian hwn er mwyn helpu i roi hyfforddiant Braille ac Iaith Arwyddion Prydain i staff arbenigol awdurdodau lleol. Mae ceisiadau rhanbarthol ar gyfer yr arian hwn wedi dod i law, ac yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau cyflenwad parhaus o Seicolegwyr Addysg, rydym yn ariannu rhaglen hyfforddiant proffesiynol Doethuriaeth Prifysgol Caerdydd mewn Seicoleg Addysg (DEdPsy). Mae trafodaethau gyda'r Brifysgol ar drefniadau 2019-20 ar waith.

Mae Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn hollbwysig i'r system newydd allu gweithredu'n effeithiol. Mae proses ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wedi helpu i lywio ein polisi ar y gofynion sgiliau a hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni'r rôl hon. Rwyf wedi cytuno i ddyrannu swm sylweddol o'r arian a neilltuwyd i weithredu'r rhaglen trawsnewid ADY er mwyn darparu hyfforddiant i'r sector pwysig hwn o'r gweithlu addysg.

## 4. Codi ymwybyddiaeth

Yr arweinwyr trawsnewid ADY fydd fy hyrwyddwyr ar y rheng flaen, ac rwyf eisoes wedi dechrau cwrdd â rhanddeiliaid allweddol a'r rhwydweithiau sy'n datblygu. Byddant yn cofnodi unrhyw faterion neu bryderon yn y maes y dylwn fod yn ymwybodol ohonynt, fel y gallwn gyflwyno'r cymorth cywir i sicrhau bod gan wasanaethau ddigon o adnoddau a'u bod yn barod i gyflwyno'r system newydd pan ddaw'r amser. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n cael hyn yn iawn, fel bod dysgwyr yn gallu cael gafael ac elwa ar y system newydd mor hwylus â phosibl.

### 4.1. Deunyddiau hyfforddiant gweithredu ADY

Ers mis Ionawr, mae Eliesha Cymru wedi bod yn cwmpasu deunyddiau hyfforddiant gweithredu ADY trwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, ein grŵp arbenigol ar hyfforddiant, ac arweinwyr trawsnewid ADY a chynrychiolwyr y trydydd sector. Gan ddefnyddio adborth o sesiynau amrywiol, maen nhw wedi dechrau datblygu'r rhaglen hyfforddi ar-lein erbyn hyn.

### 4.2. Adnoddau Cymraeg

Mae grŵp wedi'i sefydlu er mwyn helpu i ddatblygu adnoddau sgrinio ac asesu ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r grŵp yn cynnwys amryw o ymarferwyr addysg sy'n helpu plant a phobl ifanc ag ADY. Mae'r grŵp wrthi'n penderfynu pa adnoddau sgrinio ac asesu ADY Cymraeg sydd eu hangen ar hyn o bryd.

### 4.3. Asesiadau tystiolaeth cyflym

Mae asesiadau tystiolaeth cyflym a chanllawiau hygyrch ar ymyriadau effeithiol yn cael eu cynnal a'u paratoi er mwyn helpu plant a phobl ifanc ag amrywiaeth eang o ADY. Mae'r asesiadau tystiolaeth cyflym o ymyriadau er mwyn helpu plant a phobl ifanc ag ADHD ac ASD wedi'u cwblhau ac wrthi'n cael eu paratoi ar gyfer eu cyhoeddi. Mae'r canllawiau ar ymyriadau effeithiol er mwyn helpu plant a phobl ifanc gyda ASD a ADHD bron yn barod.

Hefyd, mae'r asesiadau tystiolaeth cyflym ar ymyriadau effeithiol er mwyn helpu plant a phobl ifanc â nam ar eu clyw, nam ar eu golwg a namau amlsynnwyr yn mynd yn dda a'r adroddiadau drafft yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

cc Simon Thomas AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid SeneddCyllid@cynulliad.cymru
& Mick Antoniw AC, Cadeirydd, Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol SeneddMCD@cynulliad.cymru

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **Arweinwyr Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**DYDDIAD** **18 Ebrill 2018**

**GAN** **Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i ddarparu system addysg gwbl gynhwysol, lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu hysbrydoli, eu cymell a'u cefnogi i wireddu eu potensial.

Mae trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol yn elfen allweddol o'n rhaglen gyffredinol i ddiwygio addysg, fel y nodir yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl'. Ar 12 Rhagfyr 2017, pasiwyd Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yn unfrydol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac aeth ymlaen i ddod yn Ddeddf ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 24 Ionawr 2018. Mae hon yn garreg filltir allweddol ar y daith i drawsnewid ond mae'r her go iawn o drawsnewid yn dechrau'n awr.

Rwyf wedi ystyried yn ofalus y ffordd orau o gefnogi partneriaid darparu i roi'r system ADY newydd ar waith a hefyd sicrhau newid diwylliannol i gyflawni'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf.

Heddiw, rwy'n cyhoeddi penodiad pum arweinydd trawsnewid ADY yn dilyn proses recriwtio agored a chystadleuol. Bydd pedwar arweinydd trawsnewid yn gweithio'n rhanbarthol, ar sail y consortia addysg rhanbarthol, a bydd un yn gweithio fel arweinydd trawsnewid ym maes addysg bellach. Dyma'r manylion:

- Bydd Margaret Davies, cyn arolygydd Estyn, yn gweithio yn rhanbarth y Gogledd;
- Bydd cyn arolygydd Estyn arall, Huw Davies yn gweithio yn rhanbarth y Gorllewin;
- Bydd Liz Jones, cyn Brif Seicolegydd Addysg o Flaenau Gwent yn parhau i weithio yn rhanbarth Canolbarth y De;
- Bydd Tracey Pead yn aros yn y De-ddwyrain ar ôl arwain y tîm Cymorth Disgyblion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; a
- Bydd Chris Denham yn ymgymryd â rôl arweinydd trawsnewid Addysg Bellach ar ôl gweithio i Goleg Gwent yn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd gan y swyddi hyn rôl hollbwysig yn ein strategaeth weithredu gyffredinol drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cefnogi ac yn barod i ddarparu'r system ADY newydd.

Byddant yn darparu cymorth ac yn herio awdurdodau lleol, ysgolion, lleoliadau blynyddoedd cynnar a sefydliadau addysg bellach a byddant hefyd yn cydgysylltu'r gwaith o roi hyfforddiant ar y Ddeddf ar waith yn raddol, codi ymwybyddiaeth a hwyluso gwelliannau mewn gwaith amlasiantaethol.

Rwy'n disgwyl gweld yr arweinyddion trawsnewid yn rhannu'r wybodaeth honno ac yn cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau yn barod i roi'r system newydd ar waith pan ddaw'r amser. Mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud pethau'n iawn er mwyn i ddysgwyr allu manteisio ar y system newydd mewn modd mor ddi-dor â phosibl.

Mae gan bob un o'r arweinwyr trawsnewid rhanbarthol y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer eu rhanbarth, a bydd yr arweinydd trawsnewid addysg bellach yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y sector addysg bellach. Bydd y cynlluniau hyn yn nodi'r camau y cytunwyd arnynt sy'n ofynnol i sicrhau bod yr ymarferion a'r prosesau angenrheidiol ar waith cyn cyflwyno'r Ddeddf yn raddol.

Bydd y cynlluniau yn cael eu datblygu ar y cyd â chyrff statudol allweddol yn y rhanbarth sydd â dyletswyddau o dan y Ddeddf. Bydd hyn yn seiliedig ar ddadansoddi tystiolaeth yn dangos pa mor barod ydynt i roi elfennau allweddol y system newydd ar waith, i'w datblygu drwy hunanasesiadau o barodrwydd a thrafodaethau wedi'u hwyluso gan arweinwyr trawsnewid.

Bydd gwaith arweinwyr trawsnewid yn cael ei gefnogi gan Grantiau Trawsnewid ADY. Bydd y grant yn cael ei rannu a'i ddyrannu i bob un o'r arweinwyr trawsnewid rhanbarthol yn seiliedig ar fformiwla; bydd hyn yn galluogi i bob rhanbarth dargedu'r arian fel y nodir yn eu cynllun gweithredu rhanbarthol.

I sicrhau bod gwasanaethau ac ymarferwyr yn glir ynghylch sut rydym yn disgwyl iddynt symud o un system statudol i un arall, byddwn yn cyhoeddi canllawiau manwl ar weithredu yn ystod yr haf i egluro'r amserlenni ar gyfer cyflwyno cynlluniau datblygu unigol i bob carfan o ddysgwyr yn raddol.

Wedi dweud hynny, hyd nes y daw'r Ddeddf i rym, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'u dyletswyddau yn unol â Deddf Addysg 1996 a Chod Ymarfer AAA Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

23 Ebrill 2018

Annwyl Elin

**Adnoddau ar gyfer craffu ar Brexit**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Mawrth ynghylch y baich gwaith tebygol ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n deillio o Brexit. Ystyriodd y Pwyllgor hyn yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal ymchwiliad cychwynnol ar Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach, a gaiff ei gynnal yn ystod haf 2018. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnwys o fewn rhaglen ac adnoddau staffio presennol y Pwyllgor.

Ochr yn ochr â hyn, bydd y Pwyllgor yn parhau i brif-ffrydio materion sy'n ymwneud â gadael yr Undeb Ewropeaidd i'w waith craffu cyffredinol, craffu ar bolisi a chraffu deddfwriaethol, gan ddilyn meysydd perthnasol pan fyddant yn codi. Ar hyn o bryd, nid ydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn disodli gweithgarwch allweddol arall nac yn achosi diffyg galluedd ar gyfer y Pwyllgor na'r Aelodau.

Gallai unrhyw waith penodol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sy'n gysylltiedig â Brexit ddisodli meysydd gwaith eraill a'i gwneud yn ofynnol i geisio galluedd ychwanegol o ran Aelodau a staff. Gallai meysydd o'r fath gynnwys is-ddeddfwriaeth, cynigion cydsynio deddfwriaethol, Fframweithiau'r DU, a Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor, neu effaith ar feysydd datganoledig o ran perthnasoedd masnach neu berthynas y DU â'r UE yn y dyfodol mewn cysylltiad â meysydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor. O ystyried yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r meysydd hyn, ni all y Pwyllgor ddweud yn iawn ar hyn o bryd, ond yn y cyfamser ni fyddem am weld lleihad o ran amser cyfarfod y Pwyllgor a / na'i adnoddau ategol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC / AM**
**Cadeirydd / Chair**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Ms Lynne Neagle AM
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Email: lynne.neagle@assembly.wales

24 Ebrill 2018

Annwyl Lynne

Y llynedd, fe wnaethom gomisiynu adolygiad o'r ffordd y cafodd y Dystysgrif Her Sgiliau ei dylunio a'i hasesu a'i safle o fewn Bagloriaeth Cymru.

Heddiw, rydym yn cyhoeddi adroddiad yn manylu ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion ynghyd â throsolwg byr yn egluro sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r argymhellion hynny. Rydym yn amgáu copïau o'r ddwy ddogfen gyda'r llythyr hwn.

Pwrpas yr adolygiad oedd archwilio'r ffordd y cafodd y Dystysgrif Her Sgiliau newydd ei dylunio ynghyd â sut mae'n gweithio'n ymarferol.  Daw i'r casgliad fod Bagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr er mwyn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer eu dyfodol.  Mae'n gryf o blaid cadw'r cymhwyster, ac yn ein gwahodd i ystyried sut y gallwn adeiladu ar ei gryfderau a'i symleiddio.

Mae wyth argymhelliad.  Mae rhai ohonynt yn canolbwyntio ar y ffordd y caiff y Tystysgrif Her Sgiliau ei chyflwyno ar hyn o bryd, tra bod eraill yn awgrymu sut y gellir symleiddio'r ffordd y caiff ei dylunio a'i hasesu yn y dyfodol.

Byddwn yn sefydlu gweithgor i'n helpu i ystyried sut y gellir rhoi'r argymhellion ar waith. Er mwyn profi a mireinio unrhyw gynigion a gyflwynir gan y gweithgor, byddwn yn defnyddio panel o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon, darlithwyr, myfyrwyr, cyflogwyr a phrifysgolion.

Fel cymhwyster newydd ac arloesol o fewn Bagloriaeth Cymru sydd wedi'i hailgynllunio, roedd disgwyl i'r Dystysgrif Her Sgiliau barhau i ddatblygu dros amser. Mae canfyddiadau'r

ymchwil hon yn helpu i ddangos y ffordd ar gyfer proses ystyrlon o adolygu a mireinio er mwyn sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i helpu myfyrwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar y gwaith hwn a'u heffeithiau ar gyfer y dyfodol, byddem yn fwy na pharod i wneud hynny.

Yn gywir





**Ann Evans**
Cadeirydd

**Philip Blaker**
Prif Swyddog Gweithredol

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

**Lynne Neagle AM**
Chair, Children and Young People and Education Committee

26 April 2018

Dear Lynne

**Committee inquiry into pregnancy, maternity and work**

The Equality, Local Government and Communities Committee is currently undertaking an inquiry into pregnancy, maternity and work. As part of this inquiry, we are considering whether the Welsh Government's new childcare offer is matched with targeted support for mothers to enter or return to work. Given that the childcare offer falls within the remit of the Children, Young People and Education Committee, I wanted to draw your attention to our work in this area.

The public consultation to inform our inquiry has now come to an end. We are in the process of taking oral evidence from a range of witnesses and have sessions scheduled with relevant Ministers, including the Minister for Children and Social Care, on 9 and 23 May 2018.

I am aware that your Committee has recently begun its scrutiny of the Childcare Funding (Wales) Bill and is due to report at the beginning of July 2018. While we have yet to agree a timeline for the publication of our inquiry report, we will be happy to share with you any emerging issues which may be of interest to you in your scrutiny of the Bill.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Yours sincerely

John Griffiths AM
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.